Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol y Fro
# Llangyndeyrn
# Cydweli
# Sir Gaerfyrddin
# SA17 5BW

## Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2016

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 10/02/2017**

## Cyd-destun

Mae Ysgol y Fro ym mhentref Llangyndeyrn yn Sir Gaerfyrddin. Mae'n gwasanaethu'r ardal wledig i'r de o dref Caerfyrddin.

Sefydlwyd yr ysgol ym 1996 fel ffederasiwn o dair ysgol i ddiogelu darpariaeth addysgol mewn ardal wledig. Oherwydd newidiadau demograffig, ym mis Medi 2014, canolwyd yr ysgol ar un safle yn unig.

Mae 30 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol ac mae ganddi ddau ddosbarth oed cymysg.

Mae tua 7% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r ysgol yn nodi bod gan 27% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol.

Daw tua hanner y disgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg fel prif iaith.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2011. Penodwyd y pennaeth dros dro i'w swydd ym mis Mai 2016 ond bu â gofal am yr ysgol ers Medi 2015.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol y Fro yn 2016-2017 yw £4,476. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £9,689 a'r lleiafswm yw £3,083. Mae Ysgol y Fro yn y 17eg safle o'r 100 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Da |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu
- rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau darllen ac ysgrifennu yn dda
- bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn
- staff yn ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion ac yn cyfoethogi eu haddysg yn llwyddiannus
- ansawdd yr addysgu yn dda
- ganddi weithdrefnau asesu cadarn
- iddi ethos cartrefol, cynhwysol a Chymreig

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth dros dro wedi cynnal safonau da a sicrhau lles y disgyblion yn llwyddiannus
- staff yn cydweithio'n effeithiol fel tîm
- y llywodraethwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol
- adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn drefnus ac yn rhoi darlun clir o gryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella
- staff yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod o bartneriaethau
- adnoddau'n cael eu rheoli'n effeithiol

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod disgyblion mwy abl yn gwneud cynnydd yn unol â'u gallu

A2 Gwella presenoldeb

A3 Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddefnyddio holl elfennau'r maes llafur TGCh ar draws y cwricwlwm

A4 Cryfhau cynllun datblygu'r ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae asesiadau sylfaen o ddisgyblion ar fynediad i'r ysgol yn dangos bod gan y rhan fwyaf ohonynt fedrau amrywiol. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu.

Mae medrau gwrando rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn datblygu'n dda iawn. Maent yn canolbwyntio am gyfnodau priodol ac yn dyfalbarhau'n gydwybodol ar dasgau. Yn eu gwersi, ac wrth drafod eu gwaith gydag eraill, maent yn dwyn i gof ddysgu blaenorol yn llwyddiannus, gan ddefnyddio'r wybodaeth yn bwrpasol yn eu gweithgareddau.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus ar lafar mewn ystod o sefyllfaoedd. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn siarad yn glir ac yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa a phatrymau brawddegau yn llwyddiannus. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn siarad yn glir, gan drafod eu gwaith yn hyderus yn y ddwy iaith, a chyfleu eu syniadau yn synhwyrol ac i bwrpas. Mae disgyblion hŷn yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd ac yn cyfnewid yn rhwydd rhwng un iaith a'r llall wrth drafod eu gwaith.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddysgu darllen. Maent yn mwynhau darllen ac yn gwneud hyn yn gynyddol hyderus. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn rhugl a thrafod eu hoff lyfrau yn frwdfrydig. Maent yn deall y berthynas rhwng llythrennau a seiniau yn dda. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn rhugl a chyda mynegiant da. Maent yn darllen amrywiaeth o lyfrau ffuglen a ffeithiol yn fedrus ac ystyrlon yn y ddwy iaith. Defnyddiant uwch fedrau darllen yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ymchwilio ar y we i gyflawni gwaith thema.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n dda. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn cofnodi eu syniadau trwy ysgrifennu cyfres o frawddegau cysylltiedig a gwneud defnydd priodol o atalnodi sylfaenol. Mae'r rhan fwyaf, ar y cyfan, yn sillafu geiriau cyffredin yn gywir. Maent yn ysgrifennu i bwrpas i safon ddisgwyliedig gan ddefnyddio ffurf gywir y ferf. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu llythyr, stori, adroddiad a chyfarwyddiadau yn effeithiol i bwrpas. Ychydig o ddisgyblion mwy abl sy'n dechrau dewis a dethol geiriau mwy cymhleth er mwyn creu effeithiau a chynnal diddordeb y darllenydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i ysgrifennu ar gyfer darllenwyr gwahanol. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n glir, gan ddatblygu arddull llawysgrifen daclus ac atalnodi eu gwaith yn gywir. Maent yn cymhwyso eu medrau llythrennedd yn gadarn mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm. Fodd bynnag, lleiafrif o'r disgyblion sy'n ailddrafftio'u gwaith ac yn ysgrifennu'n estynedig.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda ac yn eu cymhwyso mewn meysydd eraill o ddysgu yn hyderus. Er enghraifft, maent yn dewis y ffordd orau i gofnodi mesuriadau wrth weithio ar dasg i fesur hyd a lled bocs ar gyfer ei lapio mewn papur Nadolig. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cymhwyso eu medrau rhif yn briodol ar draws y cwricwlwm. Maent yn defnyddio offer ac unedau mesur safonol yn gywir wrth astudio tymheredd mewn gwersi daearyddiaeth. Maent yn casglu ac yn dehongli data yn hyderus, gan egluro canlyniadau a gweithdrefnau yn glir. Fodd bynnag, ychydig sy'n defnyddio eu medrau rhesymu a datrys problemau yn ddigon cyson ar draws y cwricwlwm.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion dealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n ddiogel ar y rhyngrwyd. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer yn defnyddio ystod o feddalwedd a chyfarpar technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn fedrus mewn gwahanol feysydd dysgu. Er enghraifft, maent yn defnyddio rhaglenni pwrpasol ar gyfer creu fideos wrth chwarae rôl yn y siop a dilyniant o gyfarwyddiadau ar gyfer rheoli tegan rhaglenadwy yn dda. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn rhannu eu cyflwyniadau personol yn hyderus ar gyfer eu cyfoedion gan ddefnyddio pecynnau cyflwyno addas. Maent yn defnyddio'r rhyngrwyd i ddod o hyd i wybodaeth ac mae ychydig yn datblygu medrau codio yn dda. Fodd bynnag, prin yw'r disgyblion sy'n cynhyrchu a defnyddio cronfeydd data i ddilyn llwybrau ymholi penodol mewn cyd-destunau ar draws y cwricwlwm.

Mae bron pob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cyflawni'n dda ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion mwy abl bob amser yn cyflawni yn unol â'u gallu.

Dros y blynyddoedd diwethaf, roedd nifer cymharol fach o ddisgyblion (deg neu lai) yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Gall hyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad meincnodi yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn gyson, ac wedi bod yn yr 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol mewn tair allan o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant uwch (deilliant 6) wedi amrywio. Mewn llythrennedd, mae wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf. Mewn datblygiad mathemategol, mae wedi amrywio rhwng y 50% uchaf a'r 25% isaf.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) ymhob maes, gan amlaf yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Ar y lefelau uwch na'r disgwyl (lefel 5+), mae perfformiad mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi amrywio'n fawr dros gyfnod o bedair blynedd ac nid oes unrhyw batrwm cyffredinol. Er hynny, mae perfformiad yr ysgol wedi tueddu ei gosod yn y 50% is neu'r 25% isaf yn y pedwar pwnc, ac eithrio mewn un flwyddyn.

Am fod nifer y disgyblion mor fach, nid yw cymariaethau perfformiad bechgyn a merched na disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn ddibynadwy.

## Lles: Digonol

Mae bron pob un o'r disgyblion yn hapus yn yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Maent yn gwybod at bwy i droi os oes rhywbeth yn eu poeni. Dangosant ymwybyddiaeth dda o faterion iechyd a byw yn iach trwy weithgareddau fel brwsio dannedd, cadw'n heini a chynnal siop ffrwythau yn ddyddiol. Maent yn mwynhau gweithgareddau corfforol mewn gwersi ffurfiol a thrwy fynychu amrywiaeth o weithgareddau a chystadlaethau a drefnwyd gan yr ysgol.

Mae aelodau'r cyngor ysgol, y pwyllgor eco a'r llysgenhadon yn cymryd rhan weithredol yn yr ysgol ac yn cynrychioli safbwyntiau disgyblion eraill yn dda. Trwy gymryd rhan ar y pwyllgorau hyn, mae rhan fwyaf y disgyblion yn manteisio ar y cyfle i fynegi barn a gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywyd yn yr ysgol. Mae'r cyngor ysgol a'r cyngor eco wedi cydweithio'n llwyddiannus i wella iechyd disgyblion a sicrhau bod eu cyfoedion yn deall phwysigrwydd bwyta'n iach, cadw'n heini ac edrych ar ôl amgylchedd yr ysgol.

Mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn dda iawn ac maent yn dangos parch tuag at eu cyfoedion ac oedolion o fewn yr ysgol, yn cynnwys staff ac ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf yn meddwl eu bod yn gwneud cynnydd da yn bennaf yn y Gymraeg. Maent yn cydweithio'n effeithiol ac yn gwneud defnydd da o asesu ar gyfer dysgu er mwyn gwella eu gwaith. Mae pob un o'r disgyblion yn ymwybodol o beth i'w wneud os nad ydynt yn deall tasg.

Trwy ystod o weithgareddau yn yr ysgol, eu cyfranogiad yn y gymuned, a'r profiadau allgyrsiol, mae medrau cymdeithasol a medrau bywyd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Er enghraifft, cymryd rhan mewn cyngherddau ac eisteddfodau lleol.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion wedi bod yn anghyson dros y pedair blynedd ddiwethaf ac yn aml wedi gosod yr ysgol yn is na'r canolrif o gymharu ag ysgolion tebyg. Fodd bynnag, mae disgyblion yn deall pwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac mae bron pob un yn cyrraedd yr ysgol ar amser.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

## Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang a chytbwys o brofiadau dysgu diddorol i ddisgyblion. Mae hyn yn ennyn diddordeb y rhan fwyaf ac yn cyfoethogi eu haddysg yn dda. Mae'r profiadau hyn yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol.

Darperir profiadau cyfoethog ar gyfer y Cyfnod Sylfaen mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd y tu mewn a thu allan i'r dosbarth, sy'n ehangu eu profiadau yn llwyddiannus. Mae cynllunio cyfnod allweddol 2 yn seiliedig ar gyfres o themâu a weithredir dros gylch pedair blynedd sy'n sicrhau dilyniant a chynnydd cyson yn natblygiad medrau'r disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol yn ymateb yn briodol i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, trwy ddarparu gweithgareddau pwrpasol ar draws y cwricwlwm. Mae cyfleoedd da i

ddisgyblion ddefnyddio eu medrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu ymson o safbwynt trên, ysgrifennu ffeithiol hanesyddol y ‘Gun Powder Plot’ a phoster nodweddion daearyddol Trinidad. Fodd bynnag, nid yw’r ysgol bob amser yn cynllunio’n ddigon manwl i sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd i ddatblygu pob elfen o TGCh yn rheolaidd ar draws y cwricwlwm.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu’r iaith Gymraeg a’r dimensiwn Cymreig mewn amrywiaeth o gyd-destunau yn gadarn ac yn ganolog i holl waith yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys astudio gwaith awduron a chyfrannu at ddathliadau ac eisteddfodau lleol. Trwy’r rhain, caiff y disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o’u hetifeddiaeth.

Mae’r ysgol yn cynnig ystod eang o weithgareddau allgyrsiol i ennyn diddordeb y disgyblion mewn cynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang, sy’n cynnwys clybiau celf, chwaraeon a garddio. Mae’r gweithgareddau hyn yn cyfoethogi profiadau’r disgyblion yn llwyddiannus ac yn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd arbed ynni, ailgylchu a lleihau gwastraff. Mae'r cyfleoedd iddynt ddysgu ei rôl fel dinasyddion byd-eang yn datblygu’n dda.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr athrawon wybodaeth gadarn am y meysydd dysgu a'r pynciau y maent yn eu haddysgu. Maent yn cynllunio gwersi’n fanwl gan sicrhau bod y gweithgareddau’n ddiddorol ac yn ymateb yn dda i’r ystod eang o wahanol oed a gallu o fewn y dosbarthiadau. O ganlyniad, maent yn ysgogi diddordeb a brwdfrydedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddiannus. Defnyddiant ystod o ddulliau addysgu gwahanol fel rhoi cyfleoedd i’r disgyblion weithio’n gynhyrchiol yn unigol, mewn parau ac mewn grwpiau bach lle bo hynny’n addas. Llwydda athrawon i greu awyrgylch waith effeithiol lle mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo’n ddiogel ac yn awyddus i ddysgu. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn gosod disgwyliadau digon uchel i’r ychydig o ddisgyblion mwy abl.

Mae’r staff yn modelu iaith yn dda ac yn defnyddio dulliau holi a chwestiynu treiddgar yn rheolaidd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y disgyblion, ac yn cryfhau ansawdd eu hiaith lafar yn llwyddiannus. Mae’r cydweithio arbennig sy’n bodoli rhwng yr athrawon a'r cynorthwywyr yn sicrhau bod rhan fwyaf yr unigolion a grwpiau penodol yn derbyn cefnogaeth fuddiol sy’n eu galluogi i wneud cynnydd da a chyson.

Mae gan yr ysgol brosesau asesu cadarn ac effeithiol. Mae’r athrawon yn sicrhau bod y disgyblion yn ymwybodol o nod bron pob gwers. Maent yn gosod meini prawf llwyddiant perthnasol sy’n sicrhau bod pwrpas pendant i bob gweithgaredd. Trwy hyn, mae’r disgyblion yn medru asesu gwaith eu hunain a’u cyfoedion yn drwyadl. Mae sylwadau llafar ac ysgrifenedig yr athrawon yn sicrhau bod y disgyblion yn deall sut i wella eu gwaith.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cynhwysfawr ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion.

Mae’r athrawon yn defnyddio’r wybodaeth o’r asesiadau yn fuddiol i gynllunio’r camau nesaf ar gyfer rhan fwyaf y disgyblion ac i osod targedau priodol ar gyfer gwella.

Mae adroddiadau rhieni yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am safonau a chynnydd disgyblion ac maent yn bodloni'r gofynion statudol yn llawn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar lle teimla'r disgyblion yn ddiogel. Mae trefniadau cadarn yn bodoli ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac i addysgu'r disgyblion sut i fod yn ddiogel. Cyflawnir hyn yn llwyddiannus mewn gwersi, trwy ymweliadau gan ymwelwyr allweddol a thrwy fynd ar ymweliadau pwrpasol. Rhoddir sylw arbennig i anghenion personol, emosiynol ac addysgol y disgyblion, sy'n cael effaith gryf ar eu lles.

Darperir profiadau o fewn yr ysgol ac yn y gymuned leol, sy'n datblygu medrau ysbrydol, cymdeithasol, moesol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae enghreifftiau da yn cynnwys ymweliadau â'r eglwys leol ynghyd â chyfle i rai disgyblion fynychu cyfarfod gyda'r Comisiynydd Plant i drafod materion cyfoes.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol â nifer o asiantaethau arbenigol, fel yr heddlu, gwasanaethau seicolegwyr addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol yn ôl yr angen. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les y disgyblion a'u hymwybyddiaeth o faterion penodol fel diogelwch ar y we.

Mae'r ysgol wedi datblygu gweithdrefnau priodol i fonitro presenoldeb disgyblion yn ddiweddar. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur effaith y rhain ar bresenoldeb disgyblion.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae llawer o gynlluniau addysg unigol yn nodi targedau clir ac yn amlinellu gweithgareddau penodol ar gyfer sicrhau cynnydd. Mae'r disgyblion yn trafod eu targedau personol gydag athrawon ac mae rhieni yn cael mewnbwn addas i adolygu'r cynnydd. Mae'r ysgol yn darparu cefnogaeth dda i'r disgyblion hyn, gan roi ffocws clir a phenodol ar wella'u medrau llythrennedd.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cartrefol, cynhwysol a Chymreig gan yr ysgol, sy'n annog parch tuag at blant ac oedolion. Mae'n gymuned ofalgar iawn lle teimla'r disgyblion yn hapus a chydweithiant yn effeithiol iawn gyda'i gilydd a chydag oedolion.

Mae'r ysgol yn sicrhau cyfle cyfartal a mynediad llawn i'r cwricwlwm ar gyfer pob disgybl.

Mae'r arddangosfeydd symbylol yn y dosbarthiadau yn cefnogi'r dysgu yn effeithiol. Yn ogystal, mae cyflawniadau a llwyddiannau'r disgyblion yn y dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol yn creu amgylchedd dysgu diddorol ac yn ennyn balchder y disgyblion yn eu gwaith.

Mae ysgol yn cael ei chynnal a chadw'n dda ac mae'r safle yn ddiogel. Mae adnoddau o ansawdd da ym mhob ystafell ddosbarth sy'n cefnogi'r dysgu a'r addysgu yn effeithiol. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi buddsoddi'n sylweddol i wella'r caledwedd ar gyfer TGCh. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau TGCh y disgyblion.

Mae'r ysgol yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r ardaloedd dysgu tu fewn a thu allan er mwyn cyfoethogi'r ddarpariaeth.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth dros dro wedi cynnal safonau da a sicrhau lles y disgyblion yn llwyddiannus, trwy gyfnod o ansefydlogrwydd staffio yn yr ysgol. Er y newidiadau staffio diweddar, mae disgrifiadau swyddi cyfredol yn eu lle, ac yn adlewyrchu rolau a chyfrifoldebau'r staff yn addas. Mae ymdeimlad cryf o waith tîm yn amlwg yn yr ysgol, gyda phob aelod staff yn cyflawni ei ddyletswyddau yn gydwybodol. Mae'r cyfarfodydd staff rheolaidd yn canolbwyntio'n briodol ar faterion craidd yr ysgol er mwyn sicrhau gwelliant.

Mae gan yr arweinwyr ddisgwyliadau priodol i sicrhau bod mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn cyrraedd y lefelau disgwyliedig ar ddiwedd y cyfnodau dysgu. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn sicrhau bod athrawon yn gosod disgwyliadau digon uchel i herio'r ychydig o ddisgyblion mwy abl i gyflawni hyd eithaf eu gallu.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i waith yr ysgol ac yn adnabod y gymuned yn dda. Mae cadeirydd ac is-gadeirydd y corff, er yn newydd, yn arwain eu cyd-lywodraethwyr yn llwyddiannus ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol. Mae eu cyfraniad gwerthfawr yn cael effaith gref ar ddatblygiad yr ysgol i'r dyfodol. Mae'r llywodraethwyr, bellach, yn dechrau dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad.

Mae'r ysgol yn bodloni blaenoriaethau cenedlaethol yn addas. Er enghraifft, mae'r cynlluniau gwaith yn talu sylw priodol i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, ac mae strwythurau asesu ar gyfer dysgu wedi sefydlu'n gadarn ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau gwaith y disgyblion.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn drefnus ac yn rhoi darlun clir o'i chryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae'r arweinwyr yn ystyried tystiolaeth uniongyrchol fel craffu ar lyfrau, dadansoddi data ac arsylwi gwersi yn y broses hunanarfarnu. Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i sylwadau'r disgyblion a'r rhieni, er nad oes gweithdrefnau ffurfiol yn eu lle i gasglu eu hawgrymiadau. Mae aelodau'r corff llywodraethol yn cyfrannu at y broses yn addas trwy drafod data cyrhaeddiad y disgyblion a thrwy ymweld â'r ysgol yn gyson.

Ar y cyfan, mae cysylltiad cymwys yn bodoli rhwng canfyddiadau'r adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau cynllun datblygu'r ysgol.

Mae arfarniad y cynllun blaenorol yn llywio'r cynllun cyfredol yn briodol. Mae'r cynllun datblygu presennol yn cynnwys nifer hylaw o flaenoriaethau ac yn clustnodi symiau penodol o arian i'w cyflawni o fewn terfynau amser realistig. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun yn cynnwys camau gweithredu digon miniog i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau, nac ychwaith yn sicrhau bod y trefniadau monitro yn galluogi'r arweinwyr i fesur cynnydd yn ddigon trwyadl.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod o bartneriaethau sy'n cyfrannu'n effeithiol at wella safonau a lles y disgyblion.

Mae'r berthynas sy'n bodoli rhwng y rhieni a'r ysgol yn dda. Mae rhieni yn gefnogol iawn ac yn cyfrannu at nifer o weithgareddau, gan gynnwys mentrau codi arian er mwyn cyfoethogi'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion. Er enghraifft, maent yn cyfrannu at gostau taith i ymweld ag arddangosfa Roald Dahl yng Nghaerdydd.

Mae'r bartneriaeth glos sy'n bodoli rhwng yr ysgol a'r cylch meithrin sydd ar y safle yn sicrhau bod y disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym wrth gychwyn yn yr ysgol. Mae'r trefniadau hwylus sy'n bodoli ar gyfer trosglwyddo disgyblion blwyddyn chwech i'r ysgolion uwchradd o'u dewis, yn eu paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos â swyddogion yr awdurdod lleol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau cyrhaeddiad, gofal a lles y disgyblion.

Mae'r disgyblion yn weithgar iawn yn y gymuned, trwy gystadlu yn yr eisteddfod leol, cynnal cyngherddau yn neuadd y pentref a mynychu'r eglwys ar gyfer achlysuron arbennig. Mae aelodau o'r gymuned yn ehangu profiadau'r disgyblion yn dda trwy gynnal gweithdai barddoni ac ysgrifennu, er enghraifft. Mae'r ysgol wedi cydweithio'n bwrpasol gydag ysgolion y clwstwr a'r ysgol uwchradd i safoni a chymedroli gwaith disgyblion. Mae hyn yn sicrhau cywirdeb a chysondeb yn eu hasesiadau.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau'r ysgol yn effeithiol. Mae'r staff yn cydweithio'n llwyddiannus gyda'i gilydd er mwyn cefnogi'r disgyblion. Mae'r trefniadau cyfnewid dosbarthiadau ar gyfer sesiynau llythrennedd yn enghraifft dda o ddefnyddio arbenigedd staff i hyrwyddo'r dysgu a chodi safonau.

Mae'r trefniadau ar gyfer amser i athrawon gynllunio, paratoi ac asesu yn briodol. Telir sylw teilwng i ddatblygiad proffesiynol parhaus y staff ac mae'r prosesau rheoli perfformiad yn cefnogi hyn yn dda.

Mae'r cydweithio agos sy'n bodoli gydag ysgol arall o fewn yr awdurdod lleol wedi cael effaith gadarnhaol ar weithdrefnau asesu'r ysgol eleni. Bellach, mae'r trefniadau

yn gadarn ac yn dechrau cyfrannu'n dda at wella cyrhaeddiad disgyblion. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i'r staff gyfnewid arfer dda gydag ysgolion eraill.

Mae gan yr arweinwyr drefniadau cyllidebol trylwyr ac mae gwariant yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae'r pennaeth dros dro a'r llywodraethwyr yn monitro gwariant yn effeithiol. Gan nad oedd disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn yr ysgol tan yn ddiweddar, nid yw wedi derbyn arian y Grant Amddifadedd Disgyblion.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

Mae llawer o garfanau bach iawn mewn llawer o'r blynyddoedd o ddata perfformiad y Cyfnod Sylfaen ar gyfer yr ysgol hon. Mewn achos felly, nid ydym yn cynnwys tabl data perfformiad.

**6692385 - YSGOL Y FRO**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 33 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 0.0 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 4 | 5 | 8 | 7 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 75.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 4 | 5 | 8 | 7 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 75.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 0.0 | 40.0 | 87.5 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 1 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 4 | 5 | 8 | 7 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 75.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 25.0 | 20.0 | 37.5 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 4 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 4 | 5 | 8 | 7 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 75.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 0.0 | 40.0 | 75.0 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 1 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 4 | 5 | 8 | 7 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 75.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 50.0 | 0.0 | 100.0 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 1 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 17 | 17<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 17 | 17<br>100%<br>92% | 0<br>0%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 17 | 17<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 17 | 17<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 17 | 14<br>82%<br>96% | 3<br>18%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 17 | 17<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 17 | 17<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 17 | 17<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 17 | 16<br>94%<br>91% | 1<br>6%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 17 | 16<br>94%<br>95% | 1<br>6%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 17 | 16<br>94%<br>77% | 1<br>6%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 17 | 16<br>94%<br>84% | 1<br>6%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 10 | 7 | 1 | 2 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 70% | 10% | 20% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 10 | 7 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 70% | 30% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 10 | 8 | 2 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 10 | 5 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 50% | 50% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 35% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 10 | 4 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 40% | 60% | 0% | 0% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 9 | 5 | 3 | 1 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 56% | 33% | 11% | 0% | | |
| | | 61% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 10 | 6 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 60% | 40% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 9 | 2 | 6 | 1 | 0 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 22% | 67% | 11% | 0% | | |
| | | 49% | 43% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 10 | 5 | 3 | 2 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 50% | 30% | 20% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 10 | 3 | 5 | 0 | 2 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 30% | 50% | 0% | 20% | | |
| | | 60% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 10 | 4 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 40% | 60% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 8 | 3 | 5 | 0 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 38% | 62% | 0% | 0% | | |
| | | 55% | 39% | 4% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 10 | 1 | 6 | 3 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 10% | 60% | 30% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 10 | 6 | 3 | 0 | 1 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 60% | 30% | 0% | 10% | | |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 10 | 4 | 5 | 0 | 1 | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 40% | 50% | 0% | 10% | | |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 9 | 6 | 3 | 0 | 0 | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 57% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 6 | 2 | 4 | 0 | 0 | 3 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 33% | 67% | 0% | 0% | | |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 10 | 3 | 6 | 1 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 30% | 60% | 10% | 0% | | |
| | | 54% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 10 | 5 | 3 | 0 | 2 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 50% | 30% | 0% | 20% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Meinir Wynne Howells | Arolygydd Cofnodol |
| Rhian Jones | Arolygydd Tîm |
| Michaela Leyshon | Arolygydd Lleyg |
| Neil Pike | Arolygydd Cymheiriaid |
| Diane Thomas | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.